# Prosiect: Comisiynu dogfen friffio ar gyfer gwefan swyddogol Dinas Llên Aberystwyth Ceredigion

Mae Dinas Llên Aberystwyth Ceredigion yn awyddus i gomisiynu drafftio briff gwefan er mwyn datblygu platfform digidol o'r radd flaenaf, cwbl ddwyieithog a hygyrch, ac un y gellir ei addasu yn ôl y gofyn. Bydd angen i'r platfform adlewyrchu ein statws o fewn fframwaith Dinasoedd Creadigol UNESCO a gosod y ddinas fel arweinydd ym maes llenyddiaeth, cyfranogi diwylliannol a chynhwysiant, ynghyd ag ychwanegu gwerth i'r gymuned leol.

## AMCANION STRATEGOL

1. Hyrwyddo digwyddiadau a mentrau llenyddol yn lleol (ac yn genedlaethol/rhyngwladol)
2. Darparu platfform hygyrch, cynhwysol i bob defnyddiwr
3. Cefnogi twf rhaglenni yn y tymor hir
4. Annog cyfraniad cymunedol trwy gyflwyniadau digwyddiadau wedi'u cymedroli
5. Bod yn ganolbwynt ar gyfer newyddion, addysg, partneriaethau a chydweithredu rhyngwladol

## GOFYNION ALLWEDDOL I'W CYNNWYS YN Y DDOGFEN GOMISIYNU DERFYNOL

1. Cwbl ddwyieithog (statws iaith gyfartal)
2. Calendr 'Digwyddiadau' cwbl gyfredol, wedi'i gymeradwyo fesul cam
3. Canolfan newyddion ac adnoddau
4. Cymorth amlgyfrwng (fideo, sain, mapiau)
5. O leiaf WCAG 2.2 AA (AAA lle bo'n bosibl)
6. System rheoli cynnwys y gellir ei ehangu gyda rheolaethau llywodraethu
7. Integreiddio cyfryngau cymdeithasol
8. Diogelwch data a chydymffurfiaeth â GDPR

## PRIF DASGAU'R PROSIECT

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn:

1. Cyflwyno drafft cyntaf erbyn 31 Mawrth 2026 a'r drafft terfynol erbyn 15 Mai 2026.
2. Ymgynghori ag aelodau'r bartneriaeth a rhanddeiliaid allweddol eraill
3. Ystyried gwefannau a nodweddion Dinasoedd Llên eraill gwledydd Prydain a'r rhai sy'n gweithredu'n ddwyieithog
4. Cynnig arweiniad arbenigol i gefnogi'r bartneriaeth i ddatblygu syniadau
5. Ymwybodol o gyllidebau cyfyngedig, ac yn cynnig dull graddol lle bo'n berthnasol

## CYLLIDEB Y PROSIECT

Cyfanswm y gyllideb ar gyfer y comisiwn hwn yw £5,000, gan gynnwys yr holl ffioedd, treuliau a TAW (os yw'n berthnasol).

## SGILIAU A PHROFIAD ANGHENRHEIDIOL

1. Profiad o gomisiynu gwefannau dwyieithog
2. Dealltwriaeth o blatfformau gwefannau ac isadeiledd (er mwyn bwydo'r brîff)
3. Sgiliau cyfathrebu cadarn
4. Y gallu i gynhyrchu dogfennaeth glir, hygyrch

## SUT I WNEUD CAIS

Mae angen:

1. Cynnig byr sy'n amlinellu eich dull gweithredu
2. Profiad perthnasol ac enghreifftiau o waith tebyg
3. Amserlen arfaethedig
4. Dadansoddiad manwl o'r ffioedd

**Dylid e-bostio drafft cyntaf o'ch amlinelliad ar ffurf Word neu PDF** at cais@dinasllen.cymru, gyda thestun DINAS LLEN – COMISIWN GWEFAN erbyn canol dydd ar 31 Mawrth 2026.

Mae croeso i chi gyflwyno eich cais yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

## MEINI PRAWF ASESU

Byddwn yn asesu'r cynigion ar sail:

1. Ansawdd ac addasrwydd dull gweithredu
2. Profiad perthnasol
3. Dealltwriaeth o'r briff
4. Gwerth am arian